# Pecyn Dogfen Gyhoeddus

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Janet Kelly 01352 702301
janet.kelly@flintshire.gov.uk

At:

Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, David Healey, Gladys Healey, Joe Johnson, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith, Martin White and David Williams

**Aelodau Cyfetholedig:**
Lynn Bartlett, David Hytch, Rebecca Stark a Wendy White

8 Mehefin 2021

Annwyl Gynghorydd

**HYSBYSIAD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**DYDD LLUN, 14 MEHEFIN, 2021 AM 10.00 AM**

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **PENODI CADEIRYDD** | |
| | **Pwrpas:** | Yn y Cyfarfod Blynyddol, penderfynodd y Cyngor mai Grŵp Llafur a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor hwn. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor mai'r Cynghorydd David Healey yw Cadeirydd y Pwyllgor am y flwyddyn ddinesig hon. |
| 2 | **PENODI IS-GADEIRYDD** | |
| | **Pwrpas:** | Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. |
| 3 | **YMDDIHEURIADAU** | |
| | **Pwrpas:** | I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau. |
| 4 | **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)** | |
| | **Pwrpas:** | I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny. |
| 5 | **CYDNABOD DAVID HYTCH A REBECCA STARK** | |
| | **Pwrpas:** | Cydnabod cyfraniad David Hytch a Rebecca Stark i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, y daw eu tymhorau fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor i ben ym mis Mehefin, 2021. |

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar
https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol